sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

# Cael Gafael ar Newyddion yn y DU: 2020

## Trosolwg o ganfyddiadau'r ymchwil

Dyddiad Cyhoeddi: 13 Awst 2020

# 1. Prif ganfyddiadau'r adroddiad

Mae’r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ymchwil 2019/20 Ofcom ynghylch cael gafael ar newyddion ar draws teledu, radio, print, cyfryngau cymdeithasol, podlediadau, ffynonellau eraill ar y rhyngrwyd, a chylchgronau. Caiff ei gyhoeddi fel rhan o’n hystod o adroddiadau ymchwil i'r farchnad sy’n edrych yn fanwl ar ddefnyddio cynnwys, ac agweddau tuag at y cynnwys hwnnw ar draws wahanol lwyfannau.

Nod yr adroddiad pecyn sleidiau hwn yw datblygu dealltwriaeth o arferion cael gafael ar newyddion ledled y DU ac ym mhob gwlad yn y DU. Mae hyn yn cynnwys ffynonellau a llwyfannau a ddefnyddir, pa mor bwysig yw gwahanol sefydliadau newyddion, agweddau at ffynonellau newyddion unigol, a defnyddio newyddion rhyngwladol a lleol.

Mae’r pecyn sleidiau hefyd yn rhoi dealltwriaeth o sut mae oedolion yn cael gafael ar faterion cyfoes a sut mae plant 12-15 oed yn cael gafael ar newyddion.

Cafodd y gwaith maes ar gyfer arolwg yr oedolion eleni ei gynnal rhwng 9 Tachwedd ac 8 Rhagfyr 2019, a rhwng 24 Chwefror a 30 Mawrth 2020. Cafodd y gwaith maes ar gyfer arolwg y plant eleni ei gynnal rhwng 15 Tachwedd a 10 Rhagfyr 2019, a rhwng 1 a 20 Ebrill 2020. Nid yw’r adroddiad hwn yn edrych ar gyfnod cyfyngiadau symud y coronafeirws oherwydd mae ymchwil arall, fel arolwg newyddion Covid-19 Ofcom, yn mynd i'r afael â hyn.

Y brif ffynhonnell yw Arolwg ar Gael Gafael ar Newyddion Ofcom. Mae’r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth gan amryw o gylchrediadau’r diwydiant, gan gynnwys:

- BARB ar gyfer gwylio'r teledu
- ABC ar gyfer cylchrediad papurau newydd

Mae rhagor o wybodaeth am y cylchrediadau diwydiant a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn ar gael yn yr atodiad.

## Beth rydym wedi'i ganfod – yn gryno

**Teledu yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio amlaf i gael newyddion o hyd (75%), wedyn y rhyngrwyd (65%). Fodd bynnag, o gymharu â 2019, mae llai o oedolion yn honni eu bod yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael newyddion (45%) ac mae wedi dychwelyd i'r un lefel â 2018.** Mae defnydd teledu ar ei uchaf ymysg y grŵp oedran 65+ (92%), a'r rhyngrwyd yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio amlaf i gael gafael ar newyddion ymysg pobl 18-24 oed (79%) a phobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig (74%).

**Er mai'r BBC yw'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf, mae gostyngiad wedi bod yn nifer yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio sianeli teledu'r BBC i gael newyddion.** BBC One yw'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf ymysg yr holl oedolion o hyd (56%), ac fe'i dilynir gan ITV (41%) a Facebook (34%).

**Mae tystiolaeth bod oedolion yn y DU sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael newyddion (45%) yn ymgysylltu llai â'r cynnwys.** Mae'r rheini sy'n defnyddio Facebook, Instagram a Twitter yn llai tebygol o rannu/aildrydar erthyglau newyddion poblogaidd, ac mae cyfrannau llai o bobl yn clicio ar erthyglau/fideos newyddion (Facebook/Instagram) neu'n rhoi sylwadau (Twitter/Instagram) o'i gymharu â 2019.

**Pan mae defnyddwyr yn eu sgorio ar fesurau fel ansawdd, cywirdeb, dibynadwyedd a didueddrwydd, mae cylchgronau'n dal i berfformio'n well na llwyfannau newyddion eraill, gyda theledu yn ail.** Mae defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn meddwl ei fod yn llai dibynadwy, diduedd a chywir yn 2020 nag oedd yn 2019. Mae'r gwrthwyneb yn wir am wefannau ac apiau eraill, sy'n cael eu sgorio'n uwch gan ddefnyddwyr yn 2020 na 2019.

**Teledu yw'r llwyfan mwyaf cyffredin ar gyfer cael gafael ar newyddion lleol a newyddion o fewn y gwledydd.** BBC One yw'r ffynhonnell newyddion a ddefnyddir fwyaf yng Nghymru a Lloegr o hyd. Mae BBC One ac STV yn gydradd gyntaf yn yr Alban, ac mae UTV a BBC One yn gydradd gyntaf yng Ngogledd Iwerddon.

**Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, mae ychydig dan chwech o bob deg (57%) o blant 12-15 oed yn ymddiddori mewn newyddion.** Mae'r plant hyn yn ymgysylltu â'r newyddion yn bennaf i ddeall beth sy'n digwydd o'u cwmpas, i ddysgu ac i feddwl am bethau newydd. Bod yn 'rhy ddiflas' yw'r prif reswm dros ddiffyg diddordeb mewn newyddion o hyd, gyda diffyg perthnasedd yn ail.

**Siarad â'r teulu (68%) a gwylio'r teledu (67%) yw'r ffyrdd mwyaf cyffredin o gael gwybod am y newyddion ymysg plant 12-15 oed, gyda chyfryngau cymdeithasol yn ail (55%) wedyn siarad â ffrindiau (49%).** BBC One/BBC Two yw'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf (41%) a'r un bwysicaf (17%), er mae'n werth nodi mai gwefannau cyfryngau cymdeithasol yw chwech o'r ddeg ffynhonnell a ddefnyddir amlaf gan blant 12-15 oed.

**Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, Teulu a Radio, wedyn Teledu yw'r ffynonellau newyddion mwyaf gwir ym marn plant 12-15 oed.** Cyfryngau cymdeithasol a ffrindiau yw'r ffynonellau lleiaf gwir o hyd.